Cofnodion cyfarfod hybrid y **PWYLLGOR CYNLLUNIO** a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor nos Fercher, 6 Tachwedd 2024, yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Materion Cyffredinol a'i ragflaenodd.

**PRESENNOL**

Y Cynghorydd Ms. J. McAlpine (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr M. Blackwell, Mrs. J. Chamberlain-Jones, S. Feeney, K.R. Jones, W. Price, Ms R.S. Roberts, Ms V. Roberts, A. J. Rutherford, D. Simmons ac A. Walker.

Hefyd yn bresennol

Y Cynghorydd Mrs M. Blakeley-Walker – Arsylwi
Y Cynghorydd Mrs E. Chard – Arsylwi
Mr. G.J. Nickels – Clerc y Dref
Mrs H. J. Mead – Dirprwy Glerc y Dref

**26. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Mrs. J. Butterfield, Miss S. Fleming a B. Mellor.

**27. CEISIADAU CYNLLUNIO**

Ystyriodd yr aelodau y ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd fel y dangosir isod a ***PHENDERFYNWYD*** *fel y nodir wrth y cais.*

**Nodyn 1:** Cynghorir yr Awdurdod Cynllunio Lleol fod Cyngor Tref y Rhyl yn dymuno datgan, ble bo'n briodol, y dylai fod yn ofynnol i'r holl geisiadau a restrir isod sy'n ymwneud â lleoliadau fel swyddfeydd, busnesau, siopau ac archfarchnadoedd osod arwyddion dwyieithog o amlygrwydd cydradd, i adlewyrchu natur ieithyddol ardal y Rhyl.

**Nodyn 2:** Mae Cyngor Tref y Rhyl a Chyngor Sir Ddinbych wedi cyhoeddi argyfwng hinsawdd yn ffurfiol yn ddiweddar ac felly byddai'n dymuno bod datblygwyr a'r Awdurdod Cynllunio yn cymryd camau i sicrhau bod yr holl geisiadau maint mawr yn y dyfodol yn uchafu'r defnydd o dechnolegau sy'n bodoli eisoes i leihau'r effaith negyddol ar yr hinsawdd.

| **RHESTR Y CEISIADAU CYNLLUNIO** | |
|---|---|
| 27.1 | **LLEOLIAD Y SAFLE:** 51 Ffordd Russell, Y Rhyl<br><br>**WARD:** Bodfor<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD:** Ms J. Hughes<br>Ms J. McAlpine<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2024/1115<br><br>**DISGRIFIAD**: Newid defnydd annedd i ffurfio 4 llety gwyliau<br><br>**YMGEISYDD:** Mr M. Malik |

| | |
|---|---|
| | ***PENDERFYNIAD**: Dim gwrthwynebiad* |
| 27.2 | **LLEOLIAD Y SAFLE:** Jones & Redfern, 3-5 Ffordd Russell, Y Rhyl<br><br>**WARD:** Bodfor<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD**: Ms J. Hughes<br>Ms J. McAlpine<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2024/1394<br><br>**DISGRIFIAD**: Tystysgrif datblygiad cyfreithlon sy'n bodoli i gadarnhau bod newid defnydd y lloriau uchaf yn ddau fflat wedi dechrau yn unol â chaniatâd cynllunio cyfeirnod 45/2000/0570 a'i fod yn 'fyw'<br><br>**YMGEISYDD:** A a K Ghani (A K Investments Ltd.)<br><br>***PENDERFYNIAD**: Dim gwrthwynebiad* |
| 27.3 | **LLEOLIAD Y SAFLE:** Parc Manwerthu Cei'r Marina, Ffordd Wellington, Y Rhyl<br><br>**WARD:** Foryd<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD**: Mrs. J. Butterfield<br>A.R. James<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2024/1427<br><br>**DISGRIFIAD:** Adeiladu bwyty prynu a derbyn bwyd drwy'r ffenestr, gyda mannau parcio a thirlunio cysylltiedig<br><br>**YMGEISYDD:** BFUK Group Limited<br><br>***PENDERFYNIAD**: Dim gwrthwynebiad, yn ddarostyngedig i nodiadau 1 a 2 uchod* |
| 27.4 | **LLEOLIAD Y SAFLE:** 111 Maes y Gôg, Y Rhyl<br><br>**WARD:** Tŷ Newydd<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD**: M. Blackwell<br>A. Walker<br>Miss C.L. Williams<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2024/1424<br><br>**DISGRIFIAD:** Adeiladu estyniad unllawr i du cefn yr annedd<br><br>**YMGEISYDD:** Mr B Yanik<br><br>***PENDERFYNIAD**: Dim gwrthwynebiad* |

**28. DIWEDDU'R CYFARFOD**

Gan nad oedd rhagor o eitemau busnes i'w trafod cyhoeddodd y Cadeirydd ddiwedd y cyfarfod.

Llofnod: ……………..…………

Dyddiad: ………………………...